Gostyngodd cyllid AB craidd y Coleg 2.6% ar gyfer 2014/15. Mae'r cyllid ar gyfer 2015/16 wedi gostwng ymhellach ar gyfartaledd o -9.9% ar draws y sector, ac ar lefel o 8.25% i Goleg Gwent; rydym wedi cael gwybod bod gostyngiadau sylweddol pellach yn debygol o barhau ar gyfer 15/16 a thu hwnt. Mae effaith y toriadau ariannol hyn ar gyfer 15/16 yn sylweddol ar gyfer ddarpariaeth rhan amser, a fydd yn wynebu gostyngiad o fwy na 50%. Er ein bod yn chwarae rhan weithredol yn yr ymgyrch yn erbyn y toriadau hyn, mae'n bwysig ein bod yn cynllunio gan ragdybio y byddant yn parhau.

Mae polisi cyd-fuddsoddi Llywodraeth Cymru yn debygol o arwain at newidiadau sylweddol o ran trefniadau ariannu yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Bydd y pwyslais ar symud cost addysg a hyfforddiant i gyflogwyr ac unigolion. Caiff niferoedd llawn amser eu diogelu (gan gynnwys oedolion llawn amser, o leiaf yn y byrdymor) ac mae hynny'n gryfder sylweddol gan fod dros 90% o gyllid AB prif ffrwd y Coleg yn llawn amser, ar gyfer addysg 16-18 yn llwyr, fwy neu lai. Mae'r coleg wedi gweithio'n galed i atgyfnerthu ei sefyllfa yn y dyfodol yn hyn o beth drwy recriwtio uwchlaw'r dyraniad cyllid 100%. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth llawn amser hyd yn oed mewn perygl o arbedion effeithlonrwydd pellach megis y gostyngiad o 2.6% eleni. Mae'r cyllid ar gyfer yr holl ddarpariaeth rhan amser, neu'r rhan fwyaf ohoni, yn debygol o gael ei dynnu'n ôl, ac eithrio mewn rhai meysydd blaenoriaeth megis SSIY, Sgiliau Byw'n Annibynnol, sgiliau llythrennedd a rhifedd a phrentisiaethau y bydd y llywodraeth yn parhau i ddarparu cymhorthdal ar eu cyfer ond na fydd o bosibl yn talu'r gost lawn.

Mae'r Cynllun hwn yn ymateb i'n huchelgais i fod yn ardderchog, parhau'n gryf ac ymdrin â'r amgylchedd AB cyfnewidiol, y newid mewn patrymau ariannu a'r gostyngiad mewn cyllid craidd gyda chymysgedd o ymatebion, gan gynnwys:

### TWF

- parhau â'n cynlluniau hynod lwyddiannus i dyfu AB yn gyflym;
- parhau i dyfu'r ddarpariaeth fasnachol, gan gynnwys y ddarpariaeth yn y gweithle
- buddsoddi mewn adnoddau i hwyluso twf mewn cyllid allanol, yn arbennig o gronfeydd Ewropeaidd, ond nid dim ond o'r cronfeydd hynny
- tyfu'r ddarpariaeth llawn amser drwy hyrwyddo ein canlyniadau ardderchog a'n proffil ansawdd a bwrw ati i roi datblygiadau trydyddol ar waith

### LLEIHOU RHYWFAINT O'R DDARPARIAETH

- gostyngiadau pellach o ran y ddarpariaeth partneriaethau ym maes Dysgu Cymunedol i Oedolion a Chymraeg i Oedolion, tra'n cynnal partneriaethau cadarn er mwyn sicrhau trefniadau cydweithio cadarnhaol ar gyfer y dyfodol;



- rhesymoli a lleihau darpariaeth arall rhan amser a ariennir

## **RHESYMOLI**

- parhau i ddatblygu dulliau arloesol o gyflwyno'r cwricwlwm er mwyn ein galluogi i barhau i ddarparu profiad ardderchog i ddysgwyr, tra'n rhesymoli ac yn datblygu ein darpariaeth llawn amser, gan gynnwys amser addysgu a'r gymysgedd o ddysgu wedi'i addysgu a dysgu ar-lein
- adolygu'r ddarpariaeth gyfan a'i throsglwyddo i fodel masnachol lle bynnag y bo'n bosibl
- datblygu modelau cyflwyno newydd ar gyfer cymorth i ddysgwyr, gan gynnwys y model ar gyfer llythrennedd a rhifedd

## **ARBEDION**

- parhau i adolygu a newid y cymysgedd o gontractau a ddefnyddir i gyflwyno'r cwricwlwm
- rhoi ein hadolygiad o strwythur y ddarpariaeth yn y gwaith a'r ddarpariaeth fasnachol ar waith, gyda rheolwr newydd, trefniadau mwy effeithlon ar gyfer dyrannu a chyflwyno achosion a pharhau i adeiladu ar ein gwaith helaeth gyda chyflogwyr
- parhau i adolygu ein strwythur sefydliadol er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd a'r effeithiolrwydd gorau posibl ac er mwyn sicrhau y caiff adnoddau prin eu dyrannu yn y ffordd orau, wedi'u targedu at y meysydd lle mae eu hangen fwyaf

## **DATBLYGIADAU**

- datblygu darpariaeth fwy deniadol a hygyrch i gyflogwyr;
- parhau i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer rheoli ansawdd y broses o ymgysylltu â chyflogwyr o bob math, gan gynnwys gwelliannau parhaus i'n trefniadau ar gyfer rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid, gan gynnwys ein defnydd o feddalwedd Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid (CRM) gysylltiedig a gwella ein dulliau o nodi canfyddiadau cwsmeriaid o'r coleg a'r ffyrdd rydym yn ymateb i hynny.
- arwain y sector drwy'r broses o gyflwyno Bagloriaeth newydd Cymru mewn ffordd raddol er mwyn rheoli'r risg a sicrhau'r arbedion gorau posibl o fodolau cyflwyno newydd;
- rhoi polisi ffioedd ar waith er mwyn cynyddu ffioedd pan ddaw hynny'n fasnachol bosibl i'r rheini sy'n gallu talu, a:
- cynyddu'r cymorth i'r rheini nad ydynt yn gallu talu, lle y gellir cyfiawnhau hynny a fforddio hynny;
- bwrw ati i gaffael PTP â'i ethos a'i strwythurau masnachol

- buddsoddi mewn strategaeth TGCh newydd er mwyn hwyluso'r broses o ddatblygu cyfleusterau o'r radd flaenaf i'r sector, cefnogi dulliau gweithredu arloesol mewn perthynas â chyflwyno'r cwricwlwm a rhoi systemau busnes newydd ar waith sy'n hwyluso ymdrechion i ailwampio prosesau busnes
- adolygu'r cysylltiad rhwng gwobrau, ymdrech a llwyddiant
- ailstrwythuro Dysgu Seiliedig ar Waith er mwyn sicrhau ymateb cyflymach i anghenion cyflogwyr, atebolrwydd cliriach a pherchenogaeth ac er mwyn sicrhau arbedion.

Mae twf araf a gostyngiadau mewn gwariant mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus yn debygol o leihau'r galw am addysg a hyfforddiant mewn sawl maes, ac mae sector preifat araf yn ei gwneud hi'n anodd tyfu sawl maes o'n gweithgaredd masnachol; mae cyfleoedd yn bodoli ond maent yn hynod gystadleuol. Ar adeg lle y mae angen i ni arallgyfeirio ein hincwm a chynyddu nifer ein gweithgareddau, mae'r amgylchedd cynllunio hwn yn heriol. Byddwn yn parhau i wneud pob ymdrech i fanteisio ar gyfleoedd twf wrth iddynt godi, ac i arallgyfeirio ein cyllid.

Erys AU yn gyfle sylweddol i'r Coleg a byddwn yn parhau i ehangu cyfleoedd ar Lefelau 4 a 5 yn gyflym, gyda phwyslais ar ddarpariaeth alwedigaethol, rhan amser a hyblyg. O ran ein dysgu seiliedig ar waith ar gontract yng Nghonsortium Sir Benfro, ni ryddhawyd unrhyw gyllid twf ond rydym yn bwrw ati i ddatblygu ein harlwy dysgu seiliedig ar waith fel darpariaeth fasnachol.

Byddwn hefyd yn cynllunio er mwyn cynyddu faint o waith a ariennir yn allanol, yn enwedig drwy chwilio am brosiectau a ariennir gan yr UE mewn partneriaeth ag eraill. Mae Partneriaeth Dysgu, Sgiliau ac Arloesedd (LSKIP) De-ddwyrain Cymru yn darparu grŵp o bartneriaid i atgyfnerthu ein ceisiadau ar gyfer y rhanbarth. Bydd hynny yn un o brif elfennau gwaith y Rheolwr Cyllid Allanol newydd.

## **Datblygiadau mawr o ansawdd**

Pan fydd cyfleoedd twf yn gyfyngedig, daw'n bwysicach byth sicrhau gwelliannau ansawdd parhaus; mewn amgylchedd mor gystadleuol, rhaid i ni sicrhau bod gennym enw da ym mhob rhan o'n gwasanaeth, gyda phob un o'n dysgwyr yn profi gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn llawn ac yn gwella'r enw da hwnnw. Bellach mae gan y Coleg broffil ansawdd cadarn gyda thuedd amlwg o bedair blynedd ar i fyny, a'n blaenoriaeth bennaf o hyd yw parhau â'r tuedd honno gan anelu at ragoriaeth. Nododd ein harolygiad Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) diweddar ym mis Mawrth 2015 fod y coleg a'n partneriaeth yn Dda ym mhob agwedd, yn Ardderchog ym maes Gwella Ansawdd ac yn Ardderchog o ran y Gallu i Wella.

Rydym yn bwriadu parhau â'n tuedd cadarn presennol ar i fyny yn ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol, gan ganolbwyntio ar addysgu a dysgu ac ar ansawdd y cymorth i ddysgwyr. Byddwn yn canolbwyntio ar wella gwerth ychwanegol ymhellach, gan sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial unigol gorau posibl drwy drefniadau effeithiol ar gyfer adolygu cynnydd a chynllunio camau gweithredu.

Byddwn yn parhau i atgyfnerthu trefniadau hunanasesu a gwella ansawdd parhaus ym mhob maes cyflwyno a gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys mabwysiadu dull cadarnach o reoli darpariaeth y mae ei pherfformiad islaw ein safonau uchel. Drwy gyflwyno Rhaglenni Meysydd Dysgu, cawsom gyfle i ganolbwyntio ar ddilyniant ac i sicrhau bod ein cwricwlwm yn darparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr wneud cynnydd a chyflawni eu llawn botensial. Byddwn yn datblygu dulliau mynychu mwy hyblyg ym mhob un o'n campysau er mwyn hwyluso mynediad a recriwtio ac er mwyn darparu'n well ar gyfer y rheini y mae angen iddynt ddechrau eu haddysg yn ystod y flwyddyn.

Byddwn yn parhau i wella ein trefniadau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyllid prin, gan gynnwys diddymu darpariaeth mewn meysydd lle y cafwyd gostyngiad a chynnig meysydd newydd y gallwn eu datblygu. Byddwn yn gwneud defnydd gwell ond doeth o wybodaeth am y farchnad lafur i lywio'r broses o gynllunio'r cwricwlwm, ond yn parhau i gael ein tywys gan anghenion a dymuniadau ein dysgwyr.

Mae Bagloriaeth newydd Cymru yn cynnig cyfle gwirioneddol i wella ein rhaglenni llawn amser drwy gynnwys cyflogadwyedd a sgiliau bywyd o fewn y prif gymwysterau a datblygu cyfleoedd dysgu mwy ymarferol a diddorol. Bydd hefyd yn ein helpu i ddod yn fwy effeithlon wrth gyflwyno cymorth unigol a chymorth sgiliau hanfodol. Byddwn yn mabwysiadu'r model Seiliedig ar Waith newydd fel ein prif fframwaith llawn amser o fis Medi 2015, ond rydym yn cynllunio'r broses o'i roi ar waith fesul cam yn ofalus er mwyn lleihau'r risg a sicrhau'r arbedion gorau posibl.

## **Adnoddau**

Ein hadnodd pwysicaf o bell ffordd yw ein staff ac mae datblygu strategaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol cadarn yn flaenoriaeth allweddol i ni fel rhan o'r cynllun hwn. Mae disgwyliadau cynyddol a'r angen i barhau i ddatblygu ar yr un cyflymder â byd cyfnewidiol, er mwyn gwella a gweithio'n fwy effeithiol yn her i bob un ohonom. Byddwn yn parhau i ddisgwyl lefelau perfformiad uchel, a byddwn yn gweithio gyda phob aelod o staff i ddarparu disgwyliadau a blaenoriaethau clir ynghyd â chymorth, cyngor a hyfforddiant. Byddwn yn parhau i gysylltu'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yn agosach â'r trefniadau ar gyfer hunanasesu a'r cylch ansawdd, gan roi cefnogaeth amlwg i reolwyr â pherfformiad cadarn, a help i'r rheini â meysydd i'w gwella.

Byddwn hefyd yn parhau i adolygu ein strwythur sefydliadol a'n defnydd o staff er mwyn sicrhau ein bod mor effeithlon â phosibl. Byddwn yn meincnodi ein hunain yn erbyn colegau dethol eraill er mwyn nodi meysydd budd posibl. Byddwn yn ailystyried y cymysgedd o gontractau cyflwyno a'r cymorth cysylltiedig. Byddwn yn monitro effaith newidiadau strwythurol a wnaed gennym eleni, megis yr Arweinwyr Cwrs, er mwyn sicrhau llwyddiant wrth barhau i'w gweithredu.

Mae anelu at ragoriaeth mewn amgylchedd ansicr, gyda disgwyliadau cynyddol a llai o arian, yn rhoi mwy o bwyslais byth ar ddatblygu cynlluniau buddsoddi cyfalaf cadarn wedi'u blaenoriaethu'n ofalus.

Bydd gweledigaeth y Coleg o chwarae rhan arweiniol yn y sector o ran y defnydd o dechnoleg, ein cynlluniau ar gyfer datblygu'r Ystad yn Nhorfaen a Brynbuga (ac yng Nghasnewydd a Crosskeys yn y tymor hwy), a'r angen am fuddsoddiad parhaus mewn cyfarpar cwricwlaidd, yn rhoi straen ar yr arian parod sydd ar gael i ni. Er mwyn bodloni'r dyheadau hynny, rhaid i ni barhau i gynyddu ein heffeithlonrwydd i'r eithaf er mwyn creu gwargedion i'w buddsoddi, ynghyd â pharhau i ymchwilio i bob ffordd y gellir denu arian allanol lle y bo'n bosibl. Byddwn yn adolygu'r trefniadau ar gyfer y fferm wrth i'r brydles ddirwyn i ben.

Mae'r Coleg wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau llywodraethu yn dda. Rydym wedi cyflwyno Partneriaethau Cymunedol yn llwyddiannus ar bedwar o'n campysau a byddwn yn cwblhau'r pumed yn 2015. Byddwn yn parhau i ddatblygu trefniadau llywodraethu er mwyn atgyfnerthu prosesau craffu ac ar yr un pryd, ddyfnhau gwreiddiau'r Coleg yn ein cymunedau amrywiol.

## **Cyfleoedd a datblygiadau allanol pwysig**

Rydym yn ymchwilio i nifer o gyfleoedd allanol allweddol.

Rydym yn parhau i weithio'n agos â CBS Torfaen a Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu ein huchelgais i sefydlu canolfan drydyddol ôl-16 i'r fwrdeistref. Gwellwyd y cyfle cyffrous hwn drwy ymgysylltu â busnesau peirianeg ac rydym yn gobeithio sefydlu canolfan sgiliau ranbarthol i gefnogi'r sector allweddol hwn. Byddwn yn atgyfnerthu ein cynghrair strategol â Phrifysgol De Cymru ac eraill er mwyn ehangu cyfleoedd AU ym mhob un o'n campysau. Byddwn yn parhau i anelu at gydberthnasau gwaith agosach gyda Chyngor Sir Fynwy, yn enwedig yng nghydestun ein campysau a rennir. Mae consortiwm EAS awdurdodau lleol Gwent yn cynnig cyfle i ni weithio'n agosach ag ysgolion a chyfrannu at eu cynlluniau i ddatblygu systemau ansawdd ar y cyd ar gyfer myfyrwyr ôl-16. Byddwn hefyd yn gweithio gydag EAS i geisio dod o hyd i ffyrdd amgen o ariannu a chefnogi'r Cwricwlwm 14-16 o ystyried y gostyngiadau sylweddol iawn o ran lefelau cyllid gan y Llywodraeth. Mae'r maes hwn o'r ddarpariaeth yn parhau'n rhan hanfodol o'r ymdrechion i annog pobl ifanc i barhau â'u haddysg a galluogi iddynt drosglwyddo'n llwyddiannus i addysg ôl-16. Mae'r Ardal Fenter a ddatblygwyd ym Mlaenau Gwent yn cynnig cyfle i atgyfnerthu ein cydberthnasau â chyflogwyr lleol ac i ddatblygu hyfforddiant masnachol seiliedig ar waith. Gall datblygiad arfaethedig trac rasio Cylchffordd Cymru ym Mlaenau'r Cymoedd fod yn gyfle arall o'r fath ac rydym bellach mewn sefyllfa dda i ddatblygu hyfforddiant gyda chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru os caiff y datblygiad ei roi ar waith. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i gefnogi prosiectau seilwaith cyhoeddus sylweddol yn y rhanbarth drwy ddarparu hyfforddiant a meithrin sgiliau. Rydym yn cefnogi prosiect yr A465 ac yn cynnal trafodaethau gyda phartneriaid mewn perthynas ag ehangu'r M4.

Mae'r uwch dîm yn y Coleg yn weithgar iawn mewn sawl sefydliad a rhwydwaith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol ledled Cymru. Byddwn yn parhau â'r cyfranogiad hwnnw er mwyn dylanwadu ar wneuthurwyr polisi, er mwyn sicrhau ein bod yn cael ein hysbysu'n effeithiol ac yn chwarae rhan amlwg iawn fel cenhadon a llais Coleg Gwent.

## **Gweledigaeth**

Bod yn goleg o'r radd flaenaf sy'n grymuso dysgwyr ac yn creu ffyniant yn ein cymuned

## **Cenhadaeth**

Darparu gwasanaeth eithriadol, ymatebol a hyblyg, sy'n bodloni gofynion newidiol yr economi drwy:

1. rhoi cyfleoedd addysgu a dysgu ysbrydoledig
2. codi safonau, ein huchelgeisiau ein hunain, ac uchelgeisiau ein dysgwyr
3. ehangu ac ymestyn cyfranogiad mewn dysgu
4. creu partneriaethau cynaliadwy â chymunedau a busnesau
5. dathlu amrywiaeth a diwylliant ein cymunedau
6. sicrhau cyllid cadarn er mwyn gallu buddsoddi mewn adnoddau i ddysgwyr a staff

## **Crynodeb o'r Nodau Strategol Allweddol**

NSA1 Sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei lawn botensial, gan gwblhau cyrsiau, ennill ei gymwysterau a datblygu'n llwyddiannus, naill ai'n fewnol neu'n allanol

NSA2 Darparu addysgu, dysgu ac asesu ardderchog

NSA3 Darparu gofal, arweiniad a chymorth ardderchog i bob un o'n dysgwyr

NSA4 Datblygu ein cwricwlwm er mwyn diwallu anghenion cyfnewidiol dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau lleol ac er mwyn cynhyrchu incwm masnachol

NSA5 Llywodraethu, arwain a rheoli sefydliad effeithiol ac effeithlon gydag amgylchedd dysgu o ansawdd uchel mewn modd ardderchog

NSA6 Ymgysylltu'n rhagweithiol â phartneriaid a chymunedau er budd ein dysgwyr

NSA7 Gwella trefniadau ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr drwy wasanaeth mwy ymatebol a hyblyg.

## Nodau, Amcanion a Thargedau Strategol Allweddol

### NOD 1: Sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei lawn botensial, gan gwblhau cyrsiau, ennill ei gymwysterau a datblygu'n llwyddiannus, naill ai'n fewnol neu'n allanol

Amcan	Carreg Filltir 2015/16	Carreg Filltir 2016/17	Targed 2017/18	Cyfrifoldeb
1.1 Gwella cyfraddau llwyddiant er mwyn parhau ymhlith y tri choleg gorau yng Nghymru ag enw da am fod yn eithriadol	O fewn y tri choleg gorau yng Nghymru	O fewn y ddau goleg gorau yng Nghymru	Y coleg â'r perfformiad gorau yng Nghymru	VP (C&Q)
1.2 Gwella gwerth ychwanegol mewn pynciau safon Uwch i'r 25ain canradd uchaf o blith yr holl golegau AB	O fewn y 30ain canradd o blith yr holl golegau AB	O fewn y 28ain canradd o blith yr holl golegau AB	O fewn y 25ain canradd o blith yr holl golegau AB	VP (C&Q)
1.3 Cofnodi dilyniant bwriadedig 98% o ddysgwyr llawn amser er mwyn dangos tystiolaeth bod o leiaf 95% ohonynt yn symud ymlaen i gyrchfan fwriadedig gadarnhaol	85% yn symud ymlaen	90% yn symud ymlaen	95% yn symud ymlaen	VP (C&Q)

[page 8]

### NOD 2: Darparu addysgu, dysgu ac asesu ardderchog

Amcan	Carreg Filltir 2015/16	Carreg Filltir 2016/17	Targed 2017/18	Cyfrifoldeb
2.1 Parhau i sicrhau y caiff dysgwyr eu trin yn gyfartal ac y cânt eu haddysgu a'u hasesu'n dda er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial, gyda chyfraddau llwyddiant o 92% ar gyfer dysgwyr llawn amser y coleg	Cyfradd llwyddiant o 88%	Cyfradd llwyddiant o 90%	Cyfradd llwyddiant o 92%	VP (C&Q)
2.2 Parhau i sicrhau y caiff dysgwyr seiliedig ar Waith eu trin yn gyfartal ac y cânt eu haddysgu	Cyfradd llwyddiant o 80% ar gyfer	Cyfradd llwyddiant o 85% ar gyfer	Cyfradd llwyddiant o 90% ar gyfer	DP

a'u hasesu'n dda er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial, gyda chyfraddau llwyddiant o 90% ar gyfer fframweithiau Dysgu Seiliedig ar Waith	fframweithiau	fframweithiau	fframweithiau	
2.3 Parhau i helpu Dysgwyr i feithrin sgiliau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaidd drwy gwricwlwm wedi'i gyfoethogi a thrwy eu profiad cyfan yn y coleg, gan arwain at gyfradd llwyddiant o 90% ym Magloriaeth Cymru	Cyfradd llwyddiant o 80% ym Magloriaeth Cymru	Cyfradd llwyddiant o 85% ym Magloriaeth Cymru	Cyfradd llwyddiant o 90% ym Magloriaeth Cymru	VP (C&Q)
2.4 Parhau i sicrhau bod dysgwyr yn mwynhau eu profiadau dysgu a'u profiadau ehangach mewn amgylchedd diogel, gyda chyfraddau presenoldeb uchel a lefelau boddhad dysgwyr uwch na'r meincnod	Cyfradd presenoldeb o 90% 33% yn nodi boddhad cyffredinol da iawn (LVS)	Cyfradd presenoldeb o 90% 34% yn nodi boddhad cyffredinol da iawn (LVS)	Cyfradd presenoldeb o 90% 36% yn nodi boddhad cyffredinol da iawn (LVS)	VP (C&Q)
2.5 Parhau i sicrhau bod dysgu yn fwy cyffrous a diddorol ym mhob rhan o'r Coleg drwy ddefnyddio amgylchedd dysgu rhithwir mwy effeithiol a thechnoleg briodol arall, a gwella sgiliau staff	Cytunwyd ar y safon gorfforaethol ar gyfer defnyddio amgylchedd dysgu rhithwir y Coleg ac fe'i rhoddwyd ar waith  50% o'r cyrsiau yn mabwysiadu'r safon Gorfforaethol lawn  50% o'r staff addysgu yn cyrraedd y lefel y cytunwyd arni o ran cymhwysedd TGCh	80% o'r cyrsiau yn mabwysiadu'r safon Gorfforaethol lawn ar gyfer amgylchedd dysgu rhithwir  80% o'r staff addysgu yn cyrraedd y lefel y cytunwyd arni o ran cymhwysedd TGCh	100% o'r cyrsiau yn mabwysiadu'r safon Gorfforaethol lawn ar gyfer amgylchedd dysgu rhithwir  100% o'r staff addysgu yn cyrraedd y lefel y cytunwyd arni o ran cymhwysedd TGCh	VP (R&FP) (Adnoddau)  VP (C&Q) (Mabwysiadu)

**NOD 3: Darparu gofal, arweiniad a chymorth ardderchog i bob un o'n dysgwyr**

Amcan	Carreg Filltir 2015/16	Carreg Filltir 2016/17	Targed 2017/18	Cyfrifoldeb
3.1 Parhau i sicrhau bod pob dysgwr yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cynhwysfawr a diduedd i'w helpu i wneud dewisiadau hyddysg a chofrestru ar y lefel briodol, gan arwain at gyfradd Ymadawyr Cynnar islaw 3%	Ymadawyr Cynnar < 4%	Ymadawyr Cynnar < 3.5%	Ymadawyr Cynnar < 3%	VP (C&Q)
3.2 Parhau i sicrhau y caiff yr holl anghenion cymorth eu nodi'n gywir ac y caiff cymorth effeithiol ei roi ar waith yn gyflym, gydag o leiaf 90% o'r rheini a nodwyd yn derbyn cymorth ac yn llwyddo o leiaf cystal â dysgwyr eraill	Cyfradd llwyddiant o 88% (y rheini sy'n cael cymorth)	Cyfradd llwyddiant o 90% (y rheini sy'n cael cymorth)	Cyfradd llwyddiant o 92% (y rheini sy'n cael cymorth)	VP (C&Q)

**NOD 4: Datblygu ein cwricwlwm er mwyn diwallu anghenion cyfnewidiol dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau lleol**

Amcan	Carreg Filltir 2015/16	Carreg Filltir 2016/17	Targed 2017/18	Cyfrifoldeb
4.1 Parhau i sicrhau bod cwricwlwm wedi'i gynllunio'n dda yn cyfoethogi profiad dysgwyr, yn ategu dilyniant dysgwyr ac yn diwallu anghenion rhanddeiliaid allanol, gan weithredu Bagloriaeth newydd Cymru yn unol â thargedau'r Adran Addysg a Sgiliau	Gweithredu CBC ar lefel o 30%	Gweithredu CBC ar lefel o 50%	Gweithredu CBC ar lefel o 70%	VP (C&Q)
4.2 O ganlyniad, sicrhau bod pob dysgwr yn symud ymlaen yn llwyddiannus i gyflogaeth a/neu addysg/hyfforddiant pellach neu AB, gan nodi datblygiad 98% o'r dysgwyr	96% o ffurflenni datblygiad	97% o ffurflenni datblygiad	98% o ffurflenni datblygiad	VP (C&Q)
4.3 Profi bod gwasanaethau Cymraeg a ddwyieithog o ansawdd uchel yn bodloni gofynion dysgwyr a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg	Yn dibynnu ar ymchwiliad i'r Safonau, cyllid a'r galw	Darpariaeth Gymraeg/ddwyieithog ar gael ar bob	Darpariaeth Gymraeg/ddwyieithog yn cael ei defnyddio	DP



yn y dyfodol		campws	gan 2% o'r dysgwyr llawn amser	
--------------	--	--------	--------------------------------	--

**NOD 5: Llywodraethu, arwain a rheoli mewn ffordd ardderchog, gan arwain at sefydliad effeithiol ac effeithlon sy'n darparu dysgu o ansawdd uchel mewn amgylchedd da**

<b>Amcan</b>	<b>Carreg Filltir 2015/16</b>	<b>Carreg Filltir 2016/17</b>	<b>Targed 2017/18</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>
5.1 Parhau i ddatblygu ansawdd trefniadau llywodraethu yn unol ag agweddau eraill ar berfformiad y Coleg	AHA Llywodraethu yn cael dyfarniad Da	AHA Llywodraethu yn cael dyfarniad Ardderchog	AHA Llywodraethu yn cael dyfarniad Ardderchog	Y Tîm Llywodraethu a'r Tîm Rheoli Corfforaethol
5.2 Darparu arweinyddiaeth a rheolaeth ardderchog ar bob lefel yn y Coleg drwy ddatblygu'r staff a'r llywodraethwyr, recriwtio staff yn ofalus a gwneud y defnydd gorau o sgiliau a thalentau pob unigolyn	Dyfarniad Ardderchog i'r Coleg mewn 5/10 categori	Dyfarniad Ardderchog i'r Coleg mewn 6/10 categori	Dyfarniad Ardderchog i'r Coleg yn gyffredinol	Y Tîm Llywodraethu a'r Tîm Rheoli Corfforaethol
5.3 Darparu Strategaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol i'r Coleg sy'n fframwaith cadarn ar gyfer sicrhau gweithlu effeithlon â lefelau perfformiad uchel	Strategaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol wedi'i chymeradwyo ac ar waith	Cysylltiadau sefydledig ac effeithiol rhwng cylchoedd Rheoli Perfformiad ac Ansawdd  Gwaith cynllunio'r gweithlu yn rhan sefydledig o'r cylch cynllunio busnes blynyddol	Lefelau absenoldeb yn <3%  Costau staff fel % o drosiant yn <65%	VP (R&FP)

5.4 Sicrhau bod gwaith cynllunio busnes effeithiol a rheolaeth ariannol barhaus yn arwain at wargedau sy'n ddigon uchel i ddiwallu anghenion buddsoddi'r Coleg	Gwarged ar 1% o'r trosiant Buddsoddiad cyfalaf gweithredol o £1m o leiaf	Gwarged ar 1.5% o'r trosiant Buddsoddiad cyfalaf gweithredol o £2m o leiaf	Gwarged ar 2% o'r trosiant. Buddsoddiad cyfalaf gweithredol o £3m o leiaf	VP (R&FP) gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol
5.5 Sicrhau bod yr amgylchedd a'r adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr yn addas at y diben ac yn cefnogi addysgu, dysgu ac asesu ardderchog yn llawn	Adolygu a chytuno ar Strategaeth Ystadau wedi'i diweddaru i gynnwys isafswm	Cyflawni adborth cadarnhaol gan 94% o'r dysgwyr ar y dysgu	Cyflawni adborth cadarnhaol gan 96% o'r dysgwyr ar y dysgu	VP (R&FP)

	manylebau ystafelloedd dosbarth a chynlluniau adnewyddu offer  Adolygu a chytuno ar Strategaeth Dechnoleg wedi'i diweddaru i'r Coleg	amgylchedd	amgylchedd	
5.6 Sicrhau bod pob tîm Gweithredol yn cefnogi staff y coleg yn effeithiol a'u bod bob amser yn canolbwyntio ar y dysgwyr, gydag adborth cadarnhaol gan staff a dysgwyr	Pob AHA Gweithredol yn dda neu'n well	60% o AHAAu Gweithredol yn ardderchog	80% o AHAAu Gweithredol yn ardderchog	VP (C&Q)

**NOD 6: Ymgysylltu'n rhagweithiol â phartneriaid a chymunedau er budd ein dysgwyr**

Amcan	Carreg Filltir 2015/16	Carreg Filltir 2016/17	Targed 2017/18	Cyfrifoldeb
6.1 Gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru a phartneriaid eraill i ehangu cyfleoedd addysg uwch i'n cymunedau lleol, gan gyflawni	850 o ddysgwyr AU	1,000 o ddysgwyr AU	1,100 o ddysgwyr AU	VP (C&Q)

lefel o fwy na 1,000 o ddysgwyr AU erbyn 2017				
6.2 Gweithio gydag EAS a'r awdurdodau lleol i gynnal darpariaeth cwricwlwm 14-16 a gwneud cyfraniad gweithredol at y gostyngiad parhaus yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	Cyd-fuddiolwr i raglen Ewropeaidd - cyflwynwyd i WEFO	Cyflawni canlyniadau'r rhaglen	Cyflawni canlyniadau'r rhaglen	DP
6.3 Atgyfnerthu a sicrhau darpariaeth dysgu i oedolion a dysgu cymunedol cynaliadwy ac ardderchog er mwyn diwallu anghenion cymunedau lleol	Pob aelod o bartneriaeth Gwent o dan gontract i gyflawni yn 2015-16	Pob aelod o bartneriaeth Gwent o dan gontract i gyflawni yn 2016-17	Pob aelod o bartneriaeth Gwent o dan gontract i gyflawni yn 2017-18	DP
6.4 Gweithio gyda phartneriaid allanol er mwyn parhau i hyrwyddo buddiannau addysgol darpariaeth drydyddol a hyrwyddo'r broses o ad-drefnu gwasanaethau addysg i wella'r canlyniadau i ddysgwyr	Paratoi a chyflwyno Achos Busnes Amlinellol i Dorfaen i'r Adran Addysg a Sgiliau	Yr Adran Addysg a Sgiliau yn cytuno ar Achos Busnes Terfynol i Dorfaen. Dechrau'r broses weithredu	Cwblhau'r broses o weithredu Canolfan Ôl 16 Torfaen	Pennaeth a DP

**NOD 7: Gwella trefniadau ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr drwy wasanaeth mwy ymatebol a hyblyg**

<b>Amcan</b>	<b>Carreg Filltir 2015/16</b>	<b>Carreg Filltir 2016/17</b>	<b>Targed 2017/18</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>
7.1 Adolygu a datblygu'r cwricwlwm yn barhaus er mwyn sicrhau y caiff anghenion cyflogwyr eu diwallu'n well, gan gynnwys drwy ddefnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur ranbarthol a threfniadau ymgynghori lleol yn well	Gweithredu'r cynllun cyflwyno cynnyrch newydd a nodwyd erbyn mis Gorffennaf 2015	Cyflwyno 10 o gynhyrchion hyfforddi masnachol newydd yn llwyddiannus	Cyflwyno 20 o gynhyrchion hyfforddi masnachol newydd yn llwyddiannus.	DP (Gweithredu a gwerthu)
7.2 Parhau i ddatblygu busnes masnachol er mwyn diwallu anghenion cymunedol a chynyddu amrywiaeth incwm, ac addasu'n llwyddiannus i ofynion cyd-fuddsoddi.	Anodd ei ragweld a'i feintio	Gweithredu trefniadau cyd-fuddsoddi ym mhob maes gweithgaredd	Gweithredu trefniadau cyd-fuddsoddi ym mhob maes gweithgaredd	DP

		masnachol a Dysgu Seiliedig ar Waith	masnachol a Dysgu Seiliedig ar Waith	
7.3 Parhau i wella ymatebolrwydd i gleientiaid masnachol a sicrhau y caiff eu hanghenion eu diwallu'n fwy effeithiol.	Gweithredu system fwy effeithiol ar gyfer monitro cwsmeriaid ac ymateb iddynt	Twf ac ymateb cadarnhaol gan gwsmeriaid	Ymatebion 'ardderchog' gan gwsmeriaid	DP
7.4 Datblygu'r gwasanaethau a gynigir gan y Coleg er mwyn sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddenu cyllid o fewn y strwythurau sgiliau rhanbarthol newydd.	Twf mewn prosiectau a darpariaeth a ariennir yn allanol. Cael ein henwi fel cyd-fuddiolwr mewn rhaglenni rhanbarthol y cytunwyd arnynt.	Cyflwyno rhaglenni sgiliau wedi'u harwain gan AB i WEFO.	Cyflawni allbynnau rhaglenni sgiliau wedi'u harwain gan AB.	DP

### Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cynllun Strategol 2014/15

Nodir targedau'r coleg ar gyfer 2014/15 isod (yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan y Gorfforaeth)

	Targed 2012/13	Targed 2013/14	Targed 2014/15	Targed 2015/16
1 Cadw myfyrwyr	92%	92%	93%	93%
2 Cyrhaeddiad myfyrwyr	96%	98%	98%	98%
3 Cyfradd llwyddiant myfyrwyr	88%	90%	90%	91%
	<i>Chwartzel uchaf</i>	<i>Chwartzel uchaf</i>	<i>Degradd uchaf</i>	<i>Degradd uchaf</i>
4 Cyrhaeddiad fframwaith Dysgu Seiliedig ar Waith llawn	88%	86%	89%	90%
5 Presenoldeb Myfyrwyr (DS: presenoldeb cadarnhaol)	90%	90%	90%	91%

6 Targed llawn amser (coleg, gan gynnwys EEP)	<i>Dd/G</i>	<i>Dd/G</i>	£29,965,238	£30,973,489*
7 Targed rhan amser			£2,222,745*	£612,465*

(coleg, gan gynnwys SPF)				
8 Addysg Gymunedol			£2,256,630*	£900,000*
9 Cyfanswm cyllid AB (coleg ac Addysg Gymunedol)			£34,444,613*	£32,485,954*
10 Targed y Gronfa Blaenoriaeth Sgiliau	98,735	98,735	£1,300,000	£243,019 (i'w gadarnhau)
11 Targed Niferoedd Dysgwyr EEP (PtA cyn 2014)	52	52	30 o ddysgwyr	22 o ddysgwyr
12a Masnachfaint AB - cofrestriadau llawn amser			398	477
12b Masnachfaint AB - cofrestriadau rhan amser			393	370
13 Dysgu Seiliedig ar Waith	£1.1m	£1.1m	£1.3m	£1.1m
14 Targed Incwm Rhyngwladol	£416k	£250k	£115k	£100k
15 Targed Incwm Masnachol	£1.876m	£1.733	£2.0m	£1.7m
16 Cyfradd absenoldeb staff	<4%	<5%	<4%	<4%
17 Maint Dosbarth ar Gyfartaledd (cyfartaledd drwy gydol y flwyddyn, ar ôl cadw)	16 blwyddyn 1 14 blwyddyn 2	16 blwyddyn 1 14 blwyddyn 2	18 blwyddyn 1 16 blwyddyn 2	18 blwyddyn 1 16 blwyddyn 2
18 Y defnydd o staff addysgu (Mae'r tanddefnydd o 5% yn cynnwys oriau cylch gwaith, tua 2%)	>95%	>95%	>95%	>95%
19 Gwarged gweithredu	£490k	£250k	Adennill costau	£500k
20 Cymhareb gyfredol	1.47	1.44	1.5	1.5
21 Incwm prif ffrwd fel % o incwm	86.34%	84.76%	85.23%*	85.00%
22 Costau staff fel % o incwm	64.27%	64.10%	65.50%*	64.00

\* Dros dro

DS Caiff pob un o'r targedau hyn ei ddadgrynhai i bob maes yn y Cynlluniau Busnes Gweithredol unigol.